| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Cyfarfod y Bwrdd Comisiynwyr |
| **Dyddiad** | 28 Tachwedd 2011 |
| **Pwnc** | Newidiadau i'r Cyfansoddiad |
| **Deilydd Portffolio** | Mick Giannasi |
| **Swyddog Arweiniol** | Lynn Ball, Swyddog Monitro |
| **Swyddog Cyswllt** | Meirion Jones, Cyfreithiwr y Swyddog Monitro |
| **Natur a rheswm am adrodd**<br>Mae yn ofyniad Cyfansoddiadol i unrhyw newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith / Comisiynwyr cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ac o dan Gyfarwyddyd y Gweinidog, mae unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad yn gorfod cael eu cyflwyno i'r Gweinidogion Cymreig. | |

| **A – Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw** |
|---|
| Newidiadau i'r Cyfansoddiad -<br><br>1. Ychwanegiad i'r ddeddfwriaeth yn Atodiad A i'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn 3.5.3.15.<br>2. Newidiadau i "Nodyn", sy'n cyfeirio a y diffiniad o'r gair "diwrnod", sy'n dilyn y Mynegai ar ddechrau'r Cyfansoddiad. |

| **B - Ystyriaethau** |
|---|
| Cyflwynir y newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad i'r Comisiynwyr a gofynnir iddynt wneud argymhellion i'r Cyngor, a gofynnir iddynt hwythau wneud argymhellion i'r Gwenidogion Cymreig. |

| C – Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyllid / Adran 151** | Dim |
| **2** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | Gweler isod yn CH a D |
| **3** | **Adnoddau Dynol** | Dim |
| **4** | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim |
| **5** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Dim |
| **6** | **Cydraddoldeb**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim |
| **7** | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim |
| **8** | **Cyfathrebu**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim |
| **9** | **Ymgynghori**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim |
| **10** | **Economaidd** | Dim |
| **11** | **Amgylcheddol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim |
| **12** | **Trosedd ac Anrhefn**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim |
| **13** | **Cytundeb Canlyniadau** | Dim |

| **CH - Crynodeb** | |
|---|---|
| CH1 | Ychwanegiad i'r ddeddfwriaeth yn Atodiad A i'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn 3.5.3.15. |
| 1.1 | Mae gan y Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn unol â 3.5.3.15 yn y Cyfansoddiad – Y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion, y grym a dyletswyddau ynglŷn â'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn yr Atodiad i'r Cynllun. |
| 1.2 | O bryd i'w gilydd, rhaid diweddaru'r rhestr trwy ychwanegu ati. Ar yr achlysur hwn, y ddeddfwriaeth sydd i'w hychwanegu yw :-<br><br>Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Afiechyd) 1984 fel y cafodd ei diwygio<br><br>Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010<br><br>Rheoliadau Diogelu Iechyd (Pwerau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010<br><br>Rheoliadau Diogelu Iechyd (Gorchmynion Rhan 2A) (Cymru) 2010<br><br>Deddf (Rheoleiddio) Gwelyau Haul 2010<br><br>Rheoliadau Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 (Cymru) 2011 |
| CH2 | Newidiadau i "Nodyn", sy'n cyfeirio at y diffiniad o'r gair "diwrnod", sy'n dilyn y Mynegai ar ddecharu'r Cyfansoddiad. |
| 2.1 | Ar hyn o bryd datgenir yn y "Nodyn" - Nodyn: Mae pob cyfeiriad yn y Cyfansoddiad hwn at "diwrnod" yn golygu "diwrnod gweithio" ac nid yw'n cynnwys Sadyrnau, Suliau, Gwyliau'r Banc a gwyliau swyddogol y Cyngor (sef gwyliau sy'n cynnwys y cyfnod rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a hefyd Ddydd Gŵyl Dewi). |
| 2.2 | Yn dilyn yr Ŵyl Gyhoeddus a gyhoeddwyd ar gyfer y Briodas Frenhinol yn gynharach eleni ac er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth dylai'r diffiniad o'r gair "diwrnod" gynnwys hefyd Wyliau Cyhoeddus ad hoc. |
| 2.3 | Felly cynigir bod "Nodyn" yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:<br><br>Nodyn: Mae pob cyfeiriad yn y Cyfansoddiad hwn at "diwrnod" yn golygu "diwrnod gweithio" ac nid yw'n cynnwys Sadyrnau, Suliau, Gwyliau'r Banc, Gwyliau Cyhoeddus ad hoc a gwyliau swyddogol y Cyngor (sef gwyliau sy'n cynnwys y cyfnod rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a hefyd Ddydd Gŵyl |

Dewi).

| D - Argymhelliad |
|---|
| CH1<br><br>1. Comisiynwyr<br><br>Gofynir i'r Comisiynwyr argymell i'r Cyngor a'r Gwenidogion Cymreig ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor drwy ychwanegu i Atodiad A yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn 3.5.3.15 y ddeddfwriaeth yn CH 1.2 uchod ac awdurdodi Swyddogion i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Cyfansoddiad.<br><br>2. Cyngor<br><br>Gofynir i'r Cyngor benderfynu cadarnhau argymhelliad y Comisiynwyr i ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor drwy ychwanegu i Atodiad A yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn 3.5.3.15 y ddeddfwriaeth yn CH 1.2 uchod ac awdurdodi Swyddogion i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Cyfansoddiad, a gofyn i'r Gwenidogion Cymreig gymeradwyo hynny.<br><br>3. Gwenidogion Cymreig<br><br>Gofynir i'r Gwenidogion Cymreig ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor drwy ychwanegu i Atodiad A yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn 3.5.3.15 y ddeddfwriaeth yn CH 1.2 uchod ac awdurdodi Swyddogion i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Cyfansoddiad.<br><br>CH2<br><br>1. Comisiynwyr<br><br>Gofynir i'r Comisiynwyr argymhell i'r Cyngor a'r Gwenidogion Cymreig ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor drwy newid "Nodyn", sy'n cyfeirio at y diffiniad o'r gair "diwrnod", sy'n dilyn y Mynegai ar ddechrau'r Cyfansoddiad i'r ffurf yn CH 2.3 uchod ac awdurdodi Swyddogion i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Cyfansoddiad.<br><br>2. Cyngor<br><br>Gofynir i'r Cyngor benderfynu cadarnhau argymhelliad y Comisiynwyr i ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor drwy newid "Nodyn", sy'n cyfeirio at y diffiniad o'r gair "diwrnod", sy'n dilyn y Mynegai ar ddechrau'r Cyfansoddiad i'r ffurf yn CH 2.3 uchod |

| |
|---|
| ac awdurdodi Swyddogion i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Cyfansoddiad.<br><br>3. Gwenidogion Cymreig<br><br>Gofynir i'r Gwenidogion Cymreig ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor drwy newid "Nodyn", sy'n cyfeirio at y diffiniad "diwrnod", sy'n dilyn y Mynegai ar ddechrau'r Cyfansoddiad i'r ffurf yn CH 2.3 uchod ac awdurdodi Swyddogion i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Cyfansoddiad. |

**Enw awdur yr adroddiad** R Meirion Jones
**Swydd** Cyfreithiwr y Swyddog Monitro
**Dyddiad** 10/11/2011

| **Atodiadau:** |
|---|
| Dim |

| **Papurau Cefndirol** |
|---|
| Cyfansoddiad y Cyngor |